*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **13 Mai 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Rheoli Risgiau Strategol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi crynodeb i'r aelodau o gynnwys cofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn unol â'r polisi Rheoli Risgiau Strategol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae cofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn rhestru'r risgiau hysbys a allai atal yr Awdurdod rhag gwireddu ei ganlyniadau arfaethedig a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Mae'r cofnodion yn y gofrestr yn cael sgoriau risg sy'n cael eu hail-werthuso'n rheolaidd gan y swyddogion i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a'r effaith y rhagwelir y bydd gwrth-fesurau yn ei chael. Yn y cyfarfod, bydd yr aelodau'n cael crynodeb o gofnodion diweddaraf y gofrestr.

**ARGYMHELLION**

3 Bod yr aelodau'n nodi'r risgiau strategol hysbys sy'n wynebu'r Awdurdod.

**CEFNDIR**

4 Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn diffinio risg fel "digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd".

5 Dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn cael adroddiad cryno ar y risgiau strategol, a hynny o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Rhwng yr adegau hynny mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn gallu gweld manylion llawn y gofrestr gyda'r swyddogion.

6 Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cofnodi'r lefelau risg presennol a'r lefelau risg ar gyfer y dyfodol os yw'r gwrth-fesurau a gynlluniwyd yn cael yr effaith a obeithiwyd.

7 Mae'r lefelau risg yn seiliedig ar werthuso'r tebygolrwydd y gallai rhywbeth ddigwydd a beth yw'r canlyniadau petai hynny'n digwydd. Rhoddir disgrifiadau er gwybodaeth yn Atodiad 1.

**GWYBODAETH**

8 Mae'r swyddogion yn parhau i adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau, gan ychwanegu, dileu ac ail-sgorio risgiau fel y bo'n briodol. Rhoddir crynodeb o gofnodion presennol y gofrestr yn Atodiad 2.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cynnal y gofrestr a gweithredu i reoli risg yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd amcanion llesiant yr Awdurdod yn cael eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae cynnal y gofrestr yn gymorth i flaenoriaethu penderfyniadau ynglŷn â gwariant a fyddai'n lleihau lefelau risg. |
| Cyfreithiol | Mae cynnal y gofrestr yn gymorth i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â deddfau sy'n diffinio ei swyddogaethau a'r ffordd y mae'n gweithredu. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Risgiau | Gallai rhyddhau'r gofrestr drwy ddamwain olygu bod yr Awdurdod yn agored i niwed. |

**Atodiad 1**

## Dadansoddi Risgiau

| TEBYGOL-RWYDD | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5 Bron yn sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| | 4 Tebygol | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| | 3 Posibl | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| | 2 Annhebygol | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| | 1 Annhebygol iawn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | | 1 Dibwys | 2 Mân | 3 Cymedrol | 4 Arwyddocaol | 5 Mawr |
| | | CANLYNIAD | | | | |


## Graddfa blaenoriaeth risgiau

| Gwerth | Graddfa blaenoriaeth |
|---|---|
| 20-25 | Uchel iawn – risg yn annioddefol o uchel |
| 12-16 | Uchel – risg yn sylweddol |
| 8-10 | Uchel canolig – risg yn gymedrol |
| 4-6 | Isel canolig – risg ddim yn rhy ddrwg |
| 1-3 | Isel |

**Atodiad 2**

**Y Gofrestr Risgiau Strategol ar 28/02/2019**

I. Mae'r siart isod yn dangos y lefelau presennol a'r lefelau yn y dyfodol o ran risgiau strategol hysbys sy'n wynebu'r Awdurdod.




II. <u>Risg uchel iawn</u>

Canfuwyd bod un risg yn golygu risg uchel iawn i'r Awdurdod. Mae'n ymwneud â risg o ymosodiad ar systemau cyfrifiadurol yr Awdurdod.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y bydd hwn yn mynd i lawr i risg uchel.

III. <u>Risg uchel</u>

Canfuwyd bod saith risg yn golygu risg uchel i'r Awdurdod. Yn gryno, a heb unrhyw drefn arbennig, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- dim digon o arian neu adnoddau i ddarparu gwasanaethau craidd neu i gynnal systemau risg-gritigol;
- methu â sicrhau digon o adnoddau gweithredol;
- camddefnyddio asedau yn derfysgol a/neu yn droseddol;
- lleihad annisgwyl (yn barhaol neu'n lled-barhaol) yn y staff, gan effeithio ar y gallu i ymateb mewn argyfwng;
- lefel cadernid y Gwasanaeth petai'n sydyn yn colli aelod o'r staff sydd â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes GTAGC;

- y posibilrwydd o dorri'r gyfraith mewn perthynas â data personol ar ôl dyfodiad GDPR;
- cynnal y gallu i ddarparu gwybodaeth am risgiau i staff gweithredol mewn modd electronig.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y bydd pedwar yn aros yn risgiau uchel, bydd dau yn mynd i lawr i risg canolig uchel, a bydd un yn cael ei ail-ddosbarthu'n risg isel.

IV. Risg canolig uchel

Hefyd, canfuwyd wyth risg canolig uchel. Yn gryno, a heb unrhyw drefn arbennig, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol: anaf difrifol i aelod o'r staff tra mae yn y gwaith; tarfu ar wasanaethau arferol oherwydd amgylchiadau eithriadol (Brexit, newid yn yr hinsawdd); effaith gweithlu sy'n heneiddio; oedi yn y prosiect cysylltiadau cenedlaethol arfaethedig; dim digon o arian grant i barhau i gynnal gweithgareddau atal tân; pwysigrwydd cael gweithlu ffit ac iach i ddarparu gwasanaethau; rheolaeth aneffeithiol o wybodaeth am y gweithlu; a chynnal cysondeb gweithredol gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yn y DU.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y byddai pump yn aros yn risgiau canolig uchel, a byddai tri yn mynd i lawr i lefel canolig isel.

V. Risg canolig isel

Canfuwyd deg risg canolig isel. Yn gryno, a heb unrhyw drefn arbennig, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol: effaith newidiadau i drefniadau llywodraethu'r ATAau yng Nghymru; gallu'r Gwasanaeth i ddelio â beichiau ychwanegol (a roddir o'r tu allan); tarfu ar waith prynu o ganlyniad i Brexit; cyfathrebu corfforaethol aneffeithiol; y risgiau sydd ynghlwm wrth arallgyfeirio gwasanaethau a chymryd rhan mewn prosiectau partneriaethol; methu â rhagweld a delio â phroblemau mewn da bryd; gwneud penderfyniadau mewn modd aneffeithiol neu ddiffygiol ar lefel yr Awdurdod; effaith bosibl y datblygiad mawr arfaethedig yn Ynys Môn (Wylfa Newydd) a'r effaith ar wasanaethau oherwydd streic neu weithredu diwydiannol.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, byddai naw o'r risgiau yn aros yn risg canolig a byddai un yn mynd i lawr i lefel isel.